Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## 13 Ionawr 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Alldro Ariannol, Cyfrifon Terfynol ac Adroddiadau Archwilio 2024/25 Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| AWDUR: | Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)<br>Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid |

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth gyd-destunol i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am sefyllfa ariannol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd – gan gynnwys y Fargen Twf – yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

2. PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Fel y gofynnwyd yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, cyflwynir yr adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig er mwyn darparu'r cyd-destun ariannol y mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn gweithredu ynddo. Gofynnir i'r Aelodau ystyried y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn a'i atodiadau a cheisio rhagor o wybodaeth gan swyddogion.

3. RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae Datganiadau Cyfrifon 2024/25 ar gyfer y CBC a chyn-Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi'u cymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ym mis Tachwedd 2025 ac wedi hynny maent wedi'u hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

3.2. Nid yw'r adroddiad hwn, felly, yn rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio "ailagor" y Datganiadau o Gyfrifon ond yn hytrach yn darparu gwybodaeth am sefyllfa ariannol y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. At ddibenion Datganiadau Cyfrifon 2024/25 yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, ystyriwyd bod BUEGC yn "gorff perthnasol mwy" a oedd yn golygu bod Datganiad o Gyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig wedi'i gynhyrchu ar gyfer 2024/25.

4.2. I'r gwrthwyneb, gan nad oedd incwm na gwariant y CBC yn fwy na £2.5miliwn yn ystod 2024/45 nac 2023/24, ystyriwyd ei fod yn "gorff perthnasol llai" at ddibenion y Rheoliadau, sy'n golygu bod datganiad blynyddol wedi'i chynhyrchu.

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

4.3. Trosglwyddwyd rôl a swyddogaethau BUEGC i'r CBC ar 1 Ebrill 2025, a oedd yn cynnwys staff, adnoddau, rhwymedigaethau ariannol ac asedau, gan gynnwys y Fargen Twf a'i chyllid, ac felly byddant yn cael eu cynnwys yn Natganiad Cyfrifon y CBC o 2025/26, a fydd yn gyfrifon ar gyfer corff perthnasol mwy.

## 5. SEFYLLFA ALLDRO BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU 2024/25

5.1. **Y sefyllfa alldro net terfynol ar gyfer 2024/25 oedd tanwariant o £385,605**.

### Swyddfa Rheoli Portffolio

5.2. Roedd tanwariant o £75,140 ar y Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO) ac roedd y prif danwariant i'w weld yn y pennawd Gwariant Gweithwyr. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod chwyddiant cyflog gwirioneddol ar gyfer 2024/25 tua 3% o'i gymharu â'r swm cyllidebol o 6%. Cafodd cyllid o'r Gronfa Ffyniant a Rennir ei ymestyn hefyd tan fis Mawrth 2025 felly defnyddiwyd y tanwariant ym mhennawd y cynlluniau Ffyniant a Rennir i ariannu costau tri swyddog a oedd wedi'u cyllidebu o'r blaen fel rhan o'r gyllideb graidd.

5.3. Defnyddiwyd rhan o'r tanwariant ar y pennawd Gwariant Cyflogeion i ariannu staff ymgynghori dros dro i gwmpasu rôl Rheolwr Rhaglen.

### Gwasanaethau Cymorth Corff Atebol

5.4. Y tanwariant ar y pennawd hwn oedd £41,730 sy'n ganlyniad i'r gwariant net llai ar wasanaethau cefnogol y Corff Atebol (Awdurdod Lletyol).

### Cyd-bwyllgor

5.5. Y tanwariant ar y pennawd hwn oedd £48,935, oherwydd tanwariant ar y Cymorth Cyfreithiol Allanol, Ffioedd Ariannol Allanol, Ffioedd Archwilio Allanol a'r Bwrdd Cyflenwi Busnes.

### Prosiectau

5.6. Roedd y tanwariant ar y pennawd hwn yn £65,034 yn bennaf oherwydd costau a ystyriwyd yn flaenorol o fewn costau Datblygu Achos Busnes y Prosiect yn cael eu cyfalafu. Fodd bynnag, roedd galw mawr am gymorth cyfreithiol allanol ar gyfer y prosiectau yn ystod y flwyddyn.

### Cynlluniau Grant

5.7. Mae'r gwariant o dan y pennawd hwn yn cynnwys prosiectau'r Gronfa Ynni Ardal Leol a'r Gronfa Ffyniant a Rennir a ariennir gan grant yn bennaf a derbyniwyd estyniad ar y ddau brosiect tan fis Mawrth 2025, gan arwain felly at orwariant net o £96,820 yn erbyn y gyllideb flynyddol.

5.8. Ariannwyd y gorwariant ar y prosiect Ynni Ardal Leol gan y grant dros ben tra defnyddiwyd y tanwariant ar y cynlluniau Ffyniant a Rennir i ariannu'r gorwariant ar gostau gweithwyr y Gronfa Ffyniant a Rennir yn ogystal â chyfrannu tuag at gostau gorbenion y Swyddfa Rheoli Portffolio.

### Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn

5.9. Yng nghyfarfod BUEGC ar 14 Chwefror 2025, cymeradwywyd cais gan y PMO i drosglwyddo'r llog a dderbyniwyd yn 2024/25 a 2025/26 ar falansau grant Bargen Twf Gogledd Cymru i gronfa benodol i ariannu gofynion ychwanegol y llywodraeth a chostau datblygu prosiectau o 2025/26 a chadw capasiti PMO am ddwy flynedd ychwanegol y tu hwnt i fis Mawrth 2026. Derbyniwyd o £2,800,231 a drosglwyddwyd i'r gronfa adnoddau wrth gefn.

### Cyfraniadau Cyllid

5.10. Roedd y prif ffrydiau incwm ar gyfer 2024/25 yn cynnwys cyfraniadau partner, y dyraniad refeniw ar gyfer grant Bargen Twf Gogledd Cymru, grant ynni Llywodraeth Cymru, Cronfa Ffyniant a Rennir y DU, cyfraniad y CBC ar gyfer secondiad staff a'r gronfa wrth gefn wedi'i glustnodi.

5.11. Dyraniad grant gwreiddiol Bargen Twf Gogledd Cymru oedd £1,100,000, ond oherwydd y sefyllfa danwariant net o £385,605 ar gyfer 2024/25, roedd angen swm llai o £714,395 er mwyn gadael sefyllfa niwtral am y flwyddyn.

### Cronfeydd wrth Gefn NWEAB

5.12. Cyfanswm y reserf a glustnodwyd ar 31 Mawrth 2025 oedd £210,977. Cymeradwyodd yr NWEAB yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2025 y defnydd o £60,990 o'r gronfa wrth gefn hon fel rhan o gyllideb 2025/26.

5.13. Balans y reserf prosiectau ar 31 Mawrth 2025 oedd £29,167. Yn adolygiad Rhagfyr 2024, nodwyd y byddai'r gronfa wrth gefn yma yn cael ei defnyddio i ariannu costau prosiect Ynni Lleol Clyfar sydd wedi'u cynnwys ym mhennawd Datblygu Achos Busnes y Prosiect. Mae'r costau hyn wedi cael eu cyfalafu ers hynny ond gan fod yr Achos Busnes Llawn eto i'w gymeradwyo, mae'r costau hyn wedi'u talu o'r gronfa wrth gefn prosiectau. Costau y flwyddyn oedd £123,133.

5.14. Balans y gronfa llog ar 31 Mawrth 2025 oedd £4,733,483.

5.15. Balans y reserf adnoddau ar 31 Mawrth 2025 oedd £2,800,231 oherwydd trosglwyddo'r llog a dderbyniwyd yn 2024/25 ar falans grant Bargen Twf Gogledd Cymru.

### Cyfalaf

5.16. Cyfanswm y gwariant Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025 oedd £15.31m.

5.17. Cafwyd gostyngiad net o £13.3m yn y gwariant yn 2024/25 ac roedd hyn o ganlyniad i lithriad ar bedwar prosiect (Canolfan Prosesu Signal Digidol, Ynni Lleol Blaengar, Porth Caergybi a Safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru) a phrosiect Gwaith Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy wedi cael ei dynnu'n ôl. Fodd bynnag, mae dechrau prosiectau'r Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol, Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter a'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth yn ystod y flwyddyn wedi dod â rhywfaint o'u gwariant proffil ymlaen.

5.18. Gostyngwyd y gyllideb o 2.15% ar gyfer cyllid refeniw yn 2024/25 hefyd i £0.71m i adlewyrchu'r sefyllfa alldro refeniw terfynol.

## 6. SEFYLLFA ALLDRO Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG 2024/25

6.1. **Y sefyllfa alldro net olaf ar gyfer 2024/25 oedd tanwariant o £401,598.** Cymeradwyodd y CBC drosglwyddo'r tanwariant hwn i'r gronfa wrth gefn wedi'i glustnodi. Roedd y CBC eisoes wedi cymeradwyo £564,740 o'r gronfa wrth gefn hon i'w ddefnyddio fel rhan o gyllideb 2025/26 yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr 2025.

### Gweithwyr

6.2. Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn oedd £333,674.

6.3. Roedd y gwariant ar yr is-bennawd Trafnidiaeth yn cynnwys costau secondiad Rheolwr y Rhaglen Weithredu o Lywodraeth Cymru a chostau ar gyfer yr Arweinydd Cyfathrebu ac Ymgysylltu Strategol (1 diwrnod yr wythnos). Mae'r gwariant ar is-bennawd CBC yn cynnwys costau i'r Prif Weithredwr dros dro (2 ddiwrnod yr wythnos) ynghyd â chefnogaeth y Cynorthwyydd Personol (1 diwrnod yr wythnos).

6.4. Mae cost lwfans cyllidebol yr aelodau lleyg yn ymwneud â chyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio; cynhelir y cyfarfodydd hyn o 2025/26.

### Teithio

6.5. Nid oedd y lwfans teithio a'r gyllideb cynhaliaeth staff wedi'u defnyddio yn 2024/25 sy'n gadael tanwariant o £6,000 am y flwyddyn.

### Cyflenwadau a gwasanaethau

6.6. Roedd tanwariant net o £129,140 yn erbyn y cyflenwadau a'r gwasanaethau ar gyfer 2024/25.

6.7. Roedd gorwariant o £7,502 yn y pennawd cyflenwadau amrywiol oherwydd costau hyfforddi ac argraffu sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

6.8. Roedd ffioedd Archwilio Cymru yn negyddol ar gyfer 2024/25 gan fod y ffioedd a gyfrifwyd amdanynt yn y blynyddoedd blaenorol yn uwch na'r symiau gwirioneddol. Yn ogystal, Ffurflen Flynyddol oedd ei angen ar gyfer 2024/25 yn hytrach na set lawn o gyfrifon oherwydd nad yw'r trosiant yn fwy na'r trothwy o £2.5m.

6.9. Y gwariant ar y pennawd ymgynghorwyr allanol ar gyfer y flwyddyn oedd £222,231 ac ariannwyd £180,517 o'r gwariant hwn gan Grant Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Disgwylir i wariant ymgynghorwyr allanol ar gyfer Cynllunio Strategol ddechrau yn 2025/26.

6.10. Mae tanwariant o £46,763 ar y costau yswiriant ac mae hyn oherwydd bod polisi yswiriant interim ar waith ar gyfer 2024/25, gyda'r polisi yswiriant llawn yn dechrau ym mis Ebrill 2025.

### Gwasanaethau Cefnogol

6.11. Y tanwariant terfynol ar y pennawd gwasanaethau cefnogol yw £7,230.

6.12. Roedd y gorwariant ar y pennawd cymorth corfforaethol yn bennaf oherwydd costau cyfieithu. Bydd y tanwariant ar y pennawd cyfreithiol yn cael ei ddefnyddio i ariannu rhan o'r gorwariant ar y costau cyfreithiol gan ymgynghorwyr allanol a ddangosir o dan gostau sefydlu.

### Costau sefydlu

6.13. Y gorwariant net ar y pennawd costau sefydlu yw £195,753.

6.14. Oherwydd yr oedi wrth drosglwyddo swyddogaethau'r Fargen Twf i'r CBC hyd at 1 Ebrill 2025, y costau ymgynghorol cyfreithiol ac allanol sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddiad oedd £262,686 o'i gymharu â'r gyllideb o £50,000.

6.15. Mae'r gwariant o £125,886 ar gostau cyfreithiol a democrataidd yn cynnwys costau cwmni cyfreithiol allanol yn ogystal ag ymgynghorydd cyfreithiol ac ymgynghorydd democrataidd a gomisiynwyd i ddarparu cyngor a chymorth arbenigol ar sefydlu'r CBC.

6.16. Mae'r £136,800 ar ymgynghorwyr allanol yn ymwneud â chostau rheoli prosiectau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r CBC.

### Incwm

6.17. Roedd y CBC yn llwyddiannus yn ei gais i Lywodraeth Cymru am gyllid tuag at y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, a dyfarnwyd £125k yn 2023/24 a £100k arall yn 2024/25. Dangosir £180,517 o'r incwm grant hwn yn 2024/25, gyda £80,517 o'r incwm grant yn ariannu costau ymgynghorol allanol a gomisiynwyd yn 2023/24 ond na gwblhawyd y gwaith tan fis Ebrill 2024.

6.18. Derbyniwyd cadarnhad yng Nghyllideb Hydref 2024 y byddai'r rhaglen Parth Buddsoddi yn parhau ledled y DU. Mae dyraniad blynyddol o £640k i ariannu costau refeniw, a bydd traean o'r gyllideb hon yn cael ei dyrannu i'r CBC. Bydd yr hawliad cyntaf yn cynnwys y costau o £83k a gafwyd yn 2024/25, ac er bod Cynghorau Sir Wrecsam a Sir y Fflint rhyngddynt wedi tanysgrifio £50,000 o'r gwariant hwn, bydd cronfa wrth gefn y CBC yn cael ei defnyddio i ariannu'r gwariant hwn yn 2024/25 a bydd yn cael ei ad-dalu unwaith y bydd incwm y grant wedi'i gymeradwyo gan y Llywodraeth.

6.19. Y llog ar falansau ar gyfer 2024/25 oedd £57,723.

### Cyfraniadau'r Awdurdod Cyfansoddol

6.20. Cymeradwywyd yr ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol ar gyfer 2024/25 gan y CBC yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2024.

### Cadw

6.21. Ar 1 Ebrill 2024, roedd £892k yn y gronfa wrth gefn a chymeradwywyd £98k o'r gronfa wrth gefn hon i'w ddefnyddio ar gyfer cyllideb 2024/25 a £100k i ariannu gwariant y Parth Buddsoddi nes bod yr incwm grant gan y Llywodraeth yn cael ei gymeradwyo. Oherwydd y tanwariant yn 2024/25, mae'r balans wrth gefn ar 31 Mawrth 2025 wedi cynyddu i £1.113m.

## 7. DATGANIAD O GYFRIFON

7.1. Llofnodwyd y Datganiad Cyfrifon drafft (cyn-archwiliad) ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol (Swyddog Adran 151) ar 27 Mehefin 2025 a'i ystyried gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar 18 Gorffennaf 2025.

7.2. Llofnodwyd y Ffurflen Flynyddol cyn archwiliad ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol (Swyddog Adran 151) ar 4 Mehefin 2025 a'i hystyried gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar 13 Mehefin 2025.

7.3. Yn dilyn archwiliad o'r cyfrifon gan Archwilio Cymru, cymeradwywyd adroddiad yr archwilydd ynghyd â chyfrifon terfynol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r ffurflen derfynol ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig gan y CBC ar 28 Tachwedd 2025.

7.4. Rhoddodd Archwilio Cymru farn ddiamod ar gyfrifon BUEGC a CBCyG.

## 8. GOBLYGIADAU ARIANNOL

8.1. Mae'r adroddiad yn nodi sefyllfa ariannol BUEGC a CBCyG yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25, fel y gofynnodd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr 2025. Nid oes goblygiadau ariannol yn deillio o'r penderfyniad a geisir.

## 9. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

9.1. Mae'r Datganiadau Cyfrifon a'r Ffurflen Flynyddol a gynhwysir yn yr atodiadau, ynghyd â'r adroddiadau gan Archwilio Cymru, eisoes wedi'u hystyried a’u cymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar 28 Tachwedd ac mae'r cyfrifon wedi'u hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Felly, cyflwynir yr eitemau hyn i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er gwybodaeth yn unig.

---

ATODIADAU:

**Atodiad 1: Datganiad o Gyfrifon Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2024/25**

**Atodiad 2: Adroddiad Archwilio Cyfrifon – Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**

**Atodiad 3: Ffurflen Flynyddol Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 2024/25**

---

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Mae'r adroddiad gerbron yr Aelodau er mwyn ddarparu'r safbwynt cyd-destunol ar sefyllfa ariannol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (gan gynnwys y Fargen Twf) ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth yn unig i esbonio'r cyd-destun ariannol y mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn gweithredu ynddo i gefnogi dealltwriaeth a swyddogaeth ddeddfwriaethol yr is-bwyllgor.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.